

# **YSGOL GYMRAEG GELLIONNEN**

*'Ymestyn am y gorau gyda'n gilydd'*  
*Striving for the best together*



## **Adroddiad y Corff Llywodraethu i Rieni**

*Governors Report to Parents*

**2021/22**

## CYNNWYS /*CONTENTS*

	<b>Tudalen - <i>Page</i></b>
<b>Rhagair gan Gadeirydd y Corff / <i>Foreword by the Chair of the Governors</i></b>	3-4
<b>Y Llywodraethwyr a'u dyletswyddau / <i>Meet the Governors</i></b>	5-6
<b>Gwybodaeth yr Ysgol / <i>School information</i></b>	7
<b>Staff yr Ysgol / <i>Meet the School Staff</i></b>	8-9
<b>Adroddiad Blynyddol i Rieni / <i>Annual Report to Parents</i></b>	10-22
<b>Atodiadau / <i>Appendices</i></b>	23-24

## Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid

Mae'n bleser gennyf gyflwyno i chi Adroddiad Llywodraethwyr YGG Gellionnen ar gyfer blwyddyn ysgol 2021-22.

Yn ystod cyfnod heriol tu hwnt i'r ysgol a'r gymuned ehangach yn sgil pandemig COVID19, ni fu galw ar gyrff llywodraethol ysgolion i ddarparu adroddiadau blynyddol oherwydd yr angen i roi egni ac amser i ymateb i'r heriau amrywiol a gododd yn ystod y ddwy flynedd anodd honno. Ond, gyda'r pandemig y tu cefn i ni, gobeithio, dyma ddychwelyd at y drefn a darparu i chi adroddiad ar hynt yr ysgol yn ystod 2021-22.


Yn y man cyntaf, dymuna'r corff llywodraethol ddiolch o waelod calon i rieni a chyfeillion YGG Gellionnen am eu cefnogaeth arbennig a'u cyfraniadau gwerthfawr i fywyd yr ysgol yn ystod y flwyddyn a fu. Mae'r ysgol wedi bod yn hynod o ffodus erioed o'r rhieni a'r cyfeillion sydd yn y gymuned o'i chwmpas, ac yn ystod 2021-22 profodd hynny'n bwysicach nac erioed wrth i'r ysgol geisio adfer tir a dychwelyd i weithredu'n llawn er lles ein disgyblion.

Rôl y corff llywodraethol yw sicrhau bod pawb sydd ynghlwm wrth yr ysgol – yn ddisgyblion ac yn staff – yn cael y cyfle a chwarae teg i gyrraedd eu llawn potensial gan gyfrannu at sicrhau cymuned iach a ffyniannus yng Nghlydach. Wrth galon y gwaith hwnnw mae Pennaeth yr Ysgol a'r staff ac mae diolch y Llywodraethwyr i Mr Kevin Davies a'r holl dîm addysgu, cefnogi a gofalaeth yn sylweddol am sicrhau y gorau ar ran ein plant a'u cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod digynsail rydym oll wedi ei brofi. Trwy eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u hawydd i roi lles y disgyblion wrth galon popeth, mae ein plant yn cael cefnogaeth arbennig ac yn parhau i lwyddo mewn cymaint o feysydd. Mae'r rhestr hir o weithgareddau a brofodd y plant a'r llwyddiannau amrywiol a gawsant yn ystod 2021-22 yn destun balchder i ni i gyd.

Dyma fanteisio hefyd ar gyfle i ddogfennu ein diolch sylweddol i Mr Dafydd Thomas am ei wasanaeth fel Cadeirydd Llywodraethwyr YGG Gellionnen am gynifer o flynyddoedd. Gwerthfawrogwn ei ymdrechion difflino ar ran yr ysgol a'i chymuned yn fawr.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn hapus a llewyrchus arall ym mywyd YGG Gellionnen yn 2022-23 a bydd y Corff Llywodraethol yn parhau i weithio'n agos gyda'r ysgol i herio a chefnogi hyd eithaf ein gallu er mwyn sicrhau hynny.

Dymuniadau gorau



Gwenno Ffrancon  
*Cadeirydd y Llywodraethwyr*

*Dear Parents and Guardians*

*It is my pleasure to present to you YGG Gellionnen's Governors' Report for the 2021-22 school year.*

*During an extremely challenging period for the school and the wider community as a result of the COVID19 pandemic, school governing bodies were not called upon to provide annual reports due to the need to direct energy and time to respond to the various challenges that arose during those two difficult years. But, with the pandemic behind us, hopefully, we return to routine and provide you with a report on the school's progress during 2021-22.*

*Our first task as governing body is to express our deep gratitude to the parents and friends of YGG Gellionnen for their incredible support and their valuable contributions to the life of the school during the past year. The school has always been extremely fortunate in its parents and friends in the wider community, and during 2021-22 that proved more important than ever as the school tried to regain momentum and return to being fully operational to the benefit of our pupils.*

*The role of the governing body is to ensure that everyone involved in the school – both pupils and staff – has the chance and equal opportunity to reach their full potential in order to contribute to ensuring a healthy and prosperous community in Clydach. At the heart of that work is the Head of School and the staff, and we as Governors owe a significant debt of thanks to Mr Kevin Davies and all the teaching, support and caretaking team for ensuring the best experiences for our children and for keeping them safe during the unprecedented period we have all faced. Through their hard work, their dedication and their desire to place the welfare of the pupils at the heart of everything, our children have received excellent support and they have continued to succeed in so many areas. The long list of activities and experiences the children have encountered and the various successes they have had during 2021-22 is a source of pride for us all.*

*This is also an opportunity to document our considerable thanks to Mr Dafydd Thomas for his service as Chairman of the Governors of YGG Gellionnen for so many years. We greatly appreciate his tireless efforts on behalf of the school and its community.*

*We look forward to another happy and prosperous year in the life of YGG Gellionnen in 2022-23 and in order to ensure that, the Governing Body will continue to work closely with the school to challenge and support to the best of our ability.*

*Best wishes*



*Gwenno Ffrancon  
Chair of Governors*

## Llywodraethwyr YGG Gellionnen 2021-22 *Governors*

		<b>Cyfrifoldeb Penodol / Specific Responsibility</b>
<b>Cadeirydd / <i>Chair</i>:</b>	Gwenno Ffrancon	
<b>Is-Gadeirydd / <i>Deputy Chair</i>:</b>	Rhys Browning	Anghenion Addysgol Ychwanegol / <b>Additional Educational Needs</b>  Presenoldeb / <b>Attendance</b>
<b>Pennaeth yr Ysgol / <i>Headteacher</i>:</b>	Kevin Davies	
<b>Dirprwy Bennaeth / <i>Deputy Head</i>:</b>	Julie Thomas	
<b>Clerc Llywodraethwyr / <i>Clerk to Governors</i>:</b>	Tudur Jones	
<b>Llywodraethwyr Awdurdod Lleol / <i>Local Authority Governors</i>:</b>	Helen Jones Rebecca Williams Carly Porter Ian Tolley	Chwythu'r Chwiban / <b>Whistleblowing</b>  Diogelwch Plant / <b>Safeguarding</b>
<b>Llywodraethwr Cymunedol / <i>Community Governors</i>:</b>	Gwenno Ffrancon Rhys Browning Shelley Owen Llinos Williams	Anghenion Addysgol Ychwanegol / <b>Additional Educational Needs</b> Plant a ofelir amdanynt / <b>Looked after children</b>
<b>Llywodraethwr Cyngor Cymuned / <i>Community Council Governor</i>:</b>	Sedd wag / <b>Vacancy</b>	
<b>Athro Lywodraethwyr / <i>Teacher Governor</i>:</b>	Dawn Latham	
<b>Staff Lywodraethwr / <i>Staff Governor</i>:</b>	Tara Holloway	
<b>Rhiant Lywodraethwyr / <i>Parent Governors</i>:</b>	Fiona Gannon Louise Udiawar Nathan Morrison Bethan Rees Sedd wag / <b>Vacancy</b>	Cydraddoldeb hiliol / <b>Racial equality</b>

Gellir cysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr a/neu'r Clerc drwy'r ysgol.  
*The Chairperson of the Governors and/or the Clerk may be contacted through the school.*

Ffon / Tel : 01792 845489

Ebost / E-mail : [6702232\\_ygggellionnen@hwbcymru.net](mailto:6702232_ygggellionnen@hwbcymru.net)

## **Dyletswyddau'r Llywodraethwyr / *Duties of the Governing Body***

Rhaid i'r Llywodraethwyr gydweithio yn agos gyda'r pennaeth i sicrhau fod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol.

- a) Maen nhw'n gyfrifol am ymddygiad cyffredinol yr ysgol
- b) Rhaid iddyn nhw archwilio cwricwlwm yr ysgol yng ngoleuni polisiau'r Awdurdod Addysg.
- c) Rhaid iddyn nhw benderfynu os ydy addysg ryw i fod yn rhan o gwricwlwm yr ysgol.
- ch) Gallan nhw gynnig egwyddorion i'r pennaeth wrth benderfynu polisi disgyblaeth.
- d) Rheoli arian sydd wedi ei drosglwyddo o'r Awdurdod Addysg.
- dd) I fod yn gyfrifol am benodi staff yr ysgol.
- e) Sicrhau fod gwybodaeth am yr ysgol ar gael i'r rhieni.
- f) Bod yn gyfrifol am drefnu adroddiad i'r rhieni a threfnu cyfarfod i drafod cynnwys yr adroddiad ag unrhyw fater arall sy'n ymwneud â bywyd yr ysgol.

Cynhaliwyd tri chyfarfod tymhorol yn ystod y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd cyson hefyd ar gyfer yr is-bwyllgorau.

---

*Governors have to work closely with Headteachers and Staff to ensure that the school runs smoothly and efficiently.*

- a) They are responsible for the general conduct of the school.*
- b) Must have a view on the appropriate curriculum for the school in the light of the L.E.A.'s general policies.*
- c) Decide whether sex education should be provided at the school.*
- d) May offer the Headteacher general principles to follow in determining a policy of discipline.*
- e) Have control over a sum of money handed down to them by the L.E.A..*
- f) Take part in the procedures for appointing the school's staff.*
- g) Must make information about the school available to parents.*
- h) Are responsible for preparing an annual report to parents and for holding an annual meeting with the parents to discuss the report and any other matters concerning the running of the school.*

*All Governors are expected to attend a training course organised by the L.E.A. Three termly meetings are held during the year. Regular meetings are held for the Governors' Sub-committee Groups.*

### Gwybodaeth yr ysgol / *School Information*

<b>Cyfeiriad / Address</b>	Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen, Heol Gellionnen, Clydach, Abertawe, SA6 5HE
<b>Rhif Ffôn / Telephone</b>	01792 845489
<b>E-bost / Email</b>	<a href="mailto:6702232_ygggellionnen@hwbcymru.net">6702232_ygggellionnen@hwbcymru.net</a>
<b>Gwefan / Website</b>	<a href="http://www.ygg-gellionnen.co.uk">www.ygg-gellionnen.co.uk</a>
<b>Cyfrngau Cymdeithasol / Social Media</b>	Twitter: @YGGGellionnen
<b>Awdurdod Addysg / Education Authority</b>	Cyngor Abertawe / Swansea Council
<b>Ystod Oedran y Plant / Pupil Age Range</b>	3 – 11 oed / yrs old
<b>Nifer ar y Gofrestr / Number on the register</b>	200
<b>Pennaeth / Headteacher</b>	Mr Kevin Davies
<b>Dirprwy Bennaeth/ Deputy Headteacher</b>	Mrs Julie Thomas
<b>Clerc yr Ysgol / School Clerk</b>	Mrs Rosemary Foligno
<b>Cadeirydd y Llywodraethwyr / Chair of Governors</b>	Dr Gwenno Ffrancon
<b>Clerc y Llywodraethwyr / Clerk to Governors</b>	Mr Tudur Jones
<b>Gofalwr / Caretaker</b>	Mr A Barber
<b>Oriau'r Ysgol / School Hours</b>	8.50am – 3.20pm
<b>Clwb Brecwast / Breakfast Club</b>	8.00am – 8.20am
<b>Clwb Plant Gellionnen / Gellionnen Afterschool Club</b>	3.20pm – 5.20pm Dydd Gwener/ Friday 5.00pm

### Categori Ieithyddol / *School's Language Category*

Ysgol gynradd Gymraeg benodedig yw YGG Gellionnen. Tra bod nifer o blant yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith, daw y mwyafrif o gartrefi cwbl ddi-Gymraeg ond erbyn iddynt gyrraedd tua 5 oed mae'r plant yn siarad yr iaith yn hyderus ac yn naturiol. Caiff plant y Meithrin a'r adran Fabanod eu trochi yn y Gymraeg trwy gael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Dysgir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn yr Adran Iau er bod y Gymraeg yn derbyn mwy o bwyslais fel cyfrwng y dysgu. Nod sylfaenol yr ysgol yw darparu addysg ddwyieithog i'n disgyblion a fydd yn eu galluogi i ennill hyfedredd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar feithrin ymwybyddiaeth o Gymreictod a chariad tuag at ein gwlad a'n hiaith yn ein plant.

*Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen is a designated Welsh primary school. While many children come from Welsh-speaking homes, the majority of the school's children come from non-Welsh-speaking homes, but by the time they reach around 5 years of age, the children speak the language confidently and naturally. The children of the Nursery and the Infant section are immersed in the Welsh language by being taught through the medium of Welsh only. Pupils in the Junior department are taught in both Welsh and English although Welsh receives more emphasis as a medium of learning. The school's fundamental aim is to provide bilingual education to our pupils which will enable them to gain proficiency in Welsh and English. The school places emphasis on fostering in our children an awareness of Welshness and a love for our country and our language.*

## Staff yr ysgol / *School staff 2021-22*

**Pennaeth / *Headteacher* :** Mr Kevin Davies

**Dirprwy Bennaeth / *Deputy Headteacher* :** Mrs Julie Thomas

**Uwch Dim Rheoli / *Senior Management Team* :** Mrs J Thomas, Mr R Rees (Arweinydd CA2 / KS2 leader), Mrs D Latham (Arweinydd y C.S / FPh leader), Mrs Rhian Sweeney (Arweinydd Lles), Mrs C Williams (CADY / ALNCo)

<b>Athrawon / <i>Teachers</i> :</b>	Mrs C Williams	(Blwyddyn / Year 6)
	Mrs J Thomas	(Blwyddyn / Year 6)
	Mr Rh Rees	(Blwyddyn / Year 5)
	Mr Rh Thomas	(Blwyddyn / Year 4)
	Mrs J Altham-Watkins	(Blwyddyn / Year 4)
	Mrs Rh Sweeney	(Blwyddyn / Year 3)
	Miss S Davies	(Blwyddyn / Year 2)
	Miss L Jenkins	(Blwyddyn / Year 2)
	Mrs D Latham	(Blwyddyn / Year 1)
	Mrs E Mackey	(Derbyn / Reception)
	Miss C Jones	(Meithrin / Nursery)

**Staff gweinyddol / *Administrative Staff* :** Mrs R Foligno, Mrs A Hewitt

**Cynorthwywyr Dosbarth / *Classroom Assistants* :**

Mrs M Phillips; Miss C Williams; Mrs T Holloway; Mr D Roderick; Miss C Jones; Mrs J Ezike; Mrs A Hewitt  
Miss D Evans; Mrs B Phillips; Ms Rh Griffiths.

**Cydlynwyr rhaglenni ymyrraeth / *Intervention Programme co-ordinators* :**

Ms Rh Griffiths : Rhaglen Derbyshire / *Derbyshire Programme*  
Mrs A Hewitt : Rhaglen Dyfal Donc : Rhifedd / *Dyfal Donc : Numeracy Catch Up*

**Goruchwylwyr Amser Cinio / *Lunchtime Supervisors*:**

Mrs M Phillips, Mrs T Holloway, Miss C Jones, Mrs A Hewitt, Miss C Williams, Mrs J Ezike, Mr D Roderick, Ms Rh Griffiths, Mrs B Phillips, Miss D Evans

**Staff y Clwb Brecwast / *Breakfast Club staff*:** Mrs M Phillips, Mrs T Holloway

**Staff y Clwb Gofal / *Afterschool Club staff*:** Miss C Jones, Mrs M Phillips, Miss C Williams

**Staff y Gegin / *Kitchen Staff* :** Miss R Ridd (Cogyddes / Cook)  
Miss A Sullivan  
Miss S Davies

**Gofalydd / *Caretaker*:** Mr A Barber

**Glanhawyr / *Cleaners*:** Mrs M Donne  
Miss S Barber

**Swyddog Cyllideb / *PSO* :** Mrs L Bennett

**Swyddog Addysg Lles / *EWO*:** Mrs J Watkins



**Athrawon Peripatetig / *Perepetetic Teachers:***

Mrs C Holt (Llinynnau / *Strings*)

Mrs N Jenkins (Telyn / *Harp*)

Mr W Bott (Chwythbrennau / *Woodwind*)

Mr S Howell (Pres / *Brass*)

Mr Hedges (Offerynnau Taro / *Percussion*)

## **Adroddiad Blynyddol i Rieni / *Annual Report to Parents***

Trwy gyfarpar Teams neu Zoom, cyfarfu'r Corff Llywodraethol bob tymor i drafod materion yn ymwneud â'r ysgol yn ogystal â derbyn adroddiadau gan y Clerc, y Pennaeth a chyflwyniadau amrywiol gan athrawon. Mae'r ysgol yn derbyn nifer o ddogfennau oddi wrth Senedd Cymru a'r Awdurdod Addysg Lleol ac rydym yn trafod, ac yn gweithredu yn ôl yr angen. Gobeithiwn ddychwelyd at drefn cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn 2022-23 ac y bydd modd ailgychwyn o ganlyniad ein trafodaethau gydag aelodau Cyngor yr Ysgol.

Yn sgil Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a ddaeth i rym ar y 4ydd o Fai 2013, mae canllawiau newydd ynglyn â threfniadau cyfarfodydd Llywodraethwyr â Rhieni. Yn fyr, golyga hynny:-

- nad oes raid i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol i rieni bellach
- bydd yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynhyrchu a dosbarthu adroddiad blynyddol i rieni
- os bydd 10% o rieni disgyblion cofrestredig yr ysgol neu rieni 30 o'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol - pa un bynnag o'r ffigurau sydd isaf - yn gofyn am gyfarfod â'r llywodraethwyr, mae'n ofynnol i gorff llywodraethu'r ysgol gynnal cyfarfod
- gall fod yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol gynnal hyd at 3 chyfarfod i rieni bob blwyddyn academaidd os bydd deiseb yn gofyn am hynny

*Through Zoom or Teams online facility, the Governing Body met regularly each term to discuss matters relating to the school as well as receiving reports from the Clerk, the Head Teacher and various presentations from teachers. The school receives communication from Senedd Cymru and the Local Education Authority and all correspondence are discussed and acted upon as necessary. We hope to return to face-to-face meetings in 2022-23 and, as a result, that it will be possible to resume our discussions with members of the School Council.*

*As a result of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, which came into force on the 4th of May 2013, there has been a change in procedures of Governors meetings with Parents., In short, this means that:-*

- *it will no longer be necessary for school governing bodies to hold an annual meeting with parents*
- *it will be necessary for school governing bodies to produce and distribute an annual report to parents.*
- *if 10% of the parents of registered pupils at the school or the parents of 30 pupils registered at the school – whichever is the lower number, request a meeting with governors, the school governing body is required to hold a meeting*
- *a school governing body can be required to hold up to 3 meetings with parents each academic year should a request be submitted.*

## **Materion Cyllid / *Financial Matters***

Derbyniwyd y gyllideb gan y Llywodraethwyr ac fe fu'r is-bwyllgor Cyllid yn monitro'r gwariant. Ni hawliodd y Llywodraethwyr unrhyw daliadau costau a chynhaliaeth yn ystod y flwyddyn. Ni dderbyniwyd unrhyw roddion gan yr ysgol yn ystod 2021-22.

Gweler arolwg o'r cyllid yn Atodiad A.

*The budget was approved by the Governors and was monitored by the Finance sub-committee. The governors did not claim any expenses for travelling or subsistence during the year. There were no donations given to the schools in 2021-22.*

*See Appendix A for financial statement.*

## **Llawlyfr yr Ysgol / *School Prospectus***

Adolygwyd y prospectws a gwnaed man newidiadau i adlewyrchu dyddiadau ac ystadegau cyfredol yn ogystal ag arolwg o Amcanion a Nodau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn 2021-22, yn unol â'r canllawiau a dderbyniwyd gan Senedd Cymru. Yn unol â rheolau statudol dosbarthwyd y llawlyfr yma i rieni plant sy'n cychwyn addysg llawn amser yn yr ysgol. Mae copi ar gael o'r swyddfa i'r sawl sy'n dymuno ei dderbyn a hefyd, fe fydd y prospectws yn cael ei roi ar wefan yr ysgol. Mae cytundeb cartref/ysgol yn cael ei ddsbarthu yn flynyddol.

*The school's prospectus for the academic year 2021-22 was reviewed and amended according to the Senedd Cymru guidelines. To comply with statutory regulations a copy of the prospectus has been issued to parents/guardians of pupils commencing full time education. Upon request, a copy is available in the office and in the future, the prospectus was posted on the school website. A home/school agreement is distributed annually.*

## **Polisiau a Dogfennau / *Policies and Documents***

Dros y flwyddyn adolygwyd ac addaswyd polisiau a chynlluniau'r ysgol i gydfynd a datblygiadau diweddar yn y cwricwlwm a meysydd eraill. Yn ystod y flwyddyn 2021-22 adolygwyd y canlynol:

*Reviews and subsequent improvements to policies and schemes of work were undertaken in order to comply with the latest developments in the curriculum and in other areas. During the year 2021-22, the school reviewed the following;*

1. Cyngor Abertawe Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol 2020 – 2023 / *Swansea Council Promoting Positive Behaviour Policy 2020 – 2023*
2. Polisi Rheoli Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol yn y Gwaith / *Management of Drug and Alcohol Misuse at Work Policy*
3. *Polisi Rheoli Dirgryniad yn y Gweithle / Management of Vibration at Work Policy*
4. *Polisi Rheoli Absenoldeb ar gyfer holl staff yr ysgol / Management of Absence Policy for all school based staff*
5. *Polisi Rheoli Ysmygu / Management of Smoking Policy*
6. *Partneriaeth Polisi Tâl Athrawon Model 2021-22 / Partneriaeth Model Teachers' Pay Policy 2021-22*

### Niferoedd fesul Dosbarth / *Class pupil numbers*

ATHRAWON	Meithrin y Bore	Dosb. Derbyn	Bl. 1	Bl.2	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 4	Bl. 5	Bl. 6	Bl. 6
Miss C Jones	26										
Mrs E Mackey		30									
Mrs D Latham			21								
Miss S Davies				16							
Miss L Jenkins					15						
Mrs Rh Sweeney						24					
Mr R Thomas							18				
Mrs J Altham Watkins								15			
Mr R Rees									32		
Mrs J Thomas										15	
Mrs C Williams											14

### Cynllun Gwella Ysgol / *School Improvement Plan*

Cymerwyd camau i weithredu ac adolygu strategaethau'r ysgol – Cynllun Gwella Ysgol 2020-21. Mae gwybodaeth yn cael ei gasglu yn gyson drwy fonitro trylwyr gan yr UDRh a chydlynwyr pwnc. Cesglir y gwybodaeth er mwyn bwydo mewn i ddogfen Hunan Arfarnu. Llwyddwyd i gyrraedd y targedau canlynol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn.

*Action was taken to implement and review school strategies – School Improvement Plan 2020-21. Information is collected regularly through thorough monitoring by the SMT and subject co-ordinators. Information is collated and fed into the Self Evaluation document. The school succeeded in reaching its set targets for the year.*

Cwestiwn Allweddol: <i>Key Question :</i>	Gweithgaredd / <i>Actions:</i>
<p><b>Cyflwyno amlieithrwydd a gwella safonau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion.</b></p> <p><i>Introduce multilingualism and improve pupils' oral, reading and writing standards.</i></p>	<p>Mae'r cynllun llawysgrifen (cursive) gyda'r llythrennau'n uno yn cael effaith gadarnhaol ar gyflwyniad y gwaith yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gwelliannau amlwg i'w gweld. Mae testun trafod wythnosol ynghyd â'r cynllun clonc yn arfogi'r dysgwyr â phatrymau iaith ac yn eu gwneud yn gynyddol hyderus. Bydd adnoddau ychwanegol Drilio Disglair yn cyfoethogi a chefnogi patrymau ieithyddol.</p> <p>Mae'r gwaith ymchwil PYPC wedi ei gyflawni'n llwyddiannus gyda mewnbwn a hefyd y gwaith pilot amlieithrwydd. O ran datblygiad sgiliau amlieithrwydd y disgyblion, ffilmiodd</p>

	<p>Athrofa Confucius gyfweiliadau gyda'r plant drwy gyfrwng Mandarin gan eu holi am eu profiadau. Cafodd diwylliant Tseineaidd ei ddathlu dan arweiniad Mrs Chen a'i chydweithwyr.</p> <p>Mae Headsprout wedi bod yn arf llwyddiannus i ennyn diddordeb a brwdfrydedd y plant i ddatblygu eu sgiliau darllen Saesneg yn y cartref yn ogystal â'r Ysgol. Mae trwyddedau wedi eu handnewyddu trwy gyllid yr Ysgol ers i gynnig y sir orffen.</p> <p>Darpariaeth hyfforddiant cyson i'r staff. Staff yn awyddus i ddatblygu yn dilyn wythnos o arweiniad gan Lucy Crehan CiG Coherent Curriculum Design. Trawsdoriad o staff wedi cael y cyfle i fynychu, gyda RhR yn mynychu'r diwrnodau i gyd er mwyn cydlynu a rheadru'r wybodaeth.</p> <p>Defnydd da o gryfderau staff wrth gyflwyno medrau ieithyddol tramor. Arfer dda a rhyngweithio cyson rhwng y staff.</p> <p><i>The handwriting scheme (cursive) with the letters merging has had a positive effect on the presentation of work in the Foundation Phase. There are obvious improvements to be seen. A weekly discussion topic together with the Cynllun Clonc plan equips the learners with language patterns and increases their confidence. The additional resources of Drilio Disglair will enrich and support linguistic patterns.</i></p> <p><i>The PYPC research work has been successfully carried out with input and also the multilingualism pilot work. Regarding the development of the pupils' multilingual skills, the Confucius Institute filmed interviews with the children through the medium of Mandarin, asking them about their experiences. Chinese culture was celebrated under the leadership of Mrs Chen and her colleagues.</i></p> <p><i>Headsprout has been a successful tool to arouse the interest and enthusiasm of the children to develop their English reading skills at home as well as at School. Licenses have been renewed through the School's funding since the county's offer ended.</i></p> <p><i>Provision of constant training for the staff. Staff eager to develop following a week of guidance from Lucy Crehan CiG Coherent Curriculum Design. A cross-section of staff had the</i></p>
--	--

	<p><i>opportunity to attend, with RhR attending all the days in order to coordinate and cascade the information.</i></p> <p><i>Good use of staff strengths when presenting foreign language skills. Good practice and constant interaction between the staff.</i></p>
<p><b>Parhau gyda’r trefniadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022 ac asesu. Cwricwlwm i Gymru, Llywodraeth Cymru</b></p> <p><i>Continue with plans for Curriculum for Wales 2022 and assessment. Curriculum for Wales, Welsh Government</i></p>	<p>Edrych ar broses o greu gweledigaeth ar gyfer yr Ysgol a hefyd o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad.</p> <p>Gwybodaeth yn cael ei rannu / rhaeadru i weddill y staff drwy ardal Teams staff Gellionnen</p> <p>Cyfranogiad cyson i gyfarfodydd Clwstwr - Cymuned Ddysgu Broffesiynol</p> <p>Ardal allanol: gweithgareddau cyson yn cael eu cynllunio</p> <p>Hyfforddiant maths mawr – cysoni’r ddarpariaeth – staff yn gweithredu</p> <p><i>Work carried out to create a vision for the School and also within the Areas of Learning and Experience.</i></p> <p><i>Information is shared / cascaded to the rest of the staff through the Gellionnen staff Teams area</i></p> <p><i>Regular participation in Cluster meetings - Professional Learning Community</i></p> <p><i>Outside area: regular activities are planned</i></p> <p><i>Big Maths training - synchronizing the provision - staff taking action</i></p>
<p><b>Sicrhau bod yr ysgol gyfan yn cydweithio tuag at gweithredu Deddf Anghenion Dysg Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018</b></p> <p><i>Ensure the whole school is working together to implement the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018</i></p>	<p>Gwybodaeth yn cael ei rannu / rhaeadru i weddill y staff drwy ardal Teams staff Gellionnen</p> <p>Cyfranogiad cyson i gyfarfodydd Clwstwr ADY</p> <p>Ymarferwyr trwyddedig Thrive o fewn yr Ysgol</p> <p>Sesiynau grwpiau targed mewn mathemateg yn llwyddo.</p> <p><i>Information is shared / cascaded to the rest of the staff through the Gellionnen staff Teams area</i></p> <p><i>Regular participation in ALN Cluster meetings</i></p> <p><i>Thrive licensed practitioners within the School</i></p> <p><i>Target group sessions in mathematics succeeded.</i></p>

<p><b>Hyrwyddo cynhwysiad, lles a gofal disgyblion.</b></p> <p><i>Promote the inclusion, welfare and care of pupils.</i></p>	<p>Datblygu prosiect dygnwch trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd</p> <p>Datblygu rhaglen ymweliadau preswyl ar gyfer CA2 yn Llain, Glan Llyn, Llangrannog, Hooke Court</p> <p>Mynychu cyfarfodydd Dylunio Cwricwlwm Partneriaeth – Dethol y Dysgu ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad – Iechyd a Lles rhaeadru gwybodaeth</p> <p>Parhau i fonitro a gweithredu o gwmpas lefelau presenoldeb.</p> <p><i>Develop a primary to secondary transfer endurance project</i></p> <p><i>Development a programme of residential visits for KS2 at Llain, Glan Llyn, Llangrannog, Hooke Court</i></p> <p><i>Attending Partnership Curriculum Design meetings – Selected the learning for the Areas of Learning and Experience - Health and Wellbeing knowledge cascaded</i></p> <p><i>Continue to monitor and act around attendance levels.</i></p>
--	---

## Blaenoriaethau Ysgol Gellionnen 2021-22 / *Ysgol Gellionnen Objectives 2021-22*

<p><b>Blaenoriaeth 1</b></p> <p><i>Objective 1</i></p>	<p>Cyflwyno amlieithrwydd a gwella safonau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion</p> <p><i>Introduce multilingualism and improve pupils' oral, reading and writing standards.</i></p>
<p><b>Blaenoriaeth 2</b></p> <p><i>Objective 2</i></p>	<p>Parhau gyda'r trefniadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022 ac asesu Cwricwlwm i Gymru, Llywodraeth Cymru</p> <p><i>Continue with plans for Curriculum for Wales 2022 and assessment Curriculum for Wales, Welsh Government</i></p>
<p><b>Blaenoriaeth 3</b></p> <p><i>Objective 3</i></p>	<p>Sicrhau bod yr ysgol gyfan yn cydweithio tuag at weithredu Deddf Anghenion Dysg Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018</p> <p><i>Ensure the whole school is working together to implement the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018</i></p>
<p><b>Blaenoriaeth 4</b></p> <p><i>Objective 4</i></p>	<p>Hyrwyddo cynhwysiad, lles a gofal disgyblion.</p> <p><i>Promote the inclusion, welfare and care of pupils.</i></p>

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) / *Additional Learning Needs (ALN)*

Mae polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol yn cydymffurfio â Chôd Ymarfer yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae'r polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Cydlynnydd. Fe benodir aelod o'r Corff Llywodraethol i arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer ADY. Mae'r ystod a gynhwysir o fewn anghenion ychwanegol yn eithriadol eang, o blant a datganiadau swyddogol hyd at blant disglair sy'n teilyngu gwaith ymestynnol i gadw eu diddordeb a datblygu eu galluoedd. Gan fod yr ystod o anghenion ychwanegol yn yr ysgol, rhaid darparu ystod o ddarpariaeth arbenigol i ateb anghenion y plant. Bwriadwn i bob disgybl elwa'n llawn o'i gyfnod yn YGG Gellionnen; rhaid felly darparu'n llawn ar gyfer pob angen a gosod strwythurau yn eu lle i fonitro a darparu ar gyfer yr anghenion hynny. Addysgir y plant mewn dosbarthiadau o allu a rhyw cymysg ymhob blwyddyn yn yr ysgol. Erbyn hyn darperir cymorth dysgu i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn y dosbarthiadau a thu allan. Mrs Caroline Williams yw cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac mae'r cynorthwyyr yn cefnogi disgyblion o fewn a thu allan i'r dosbarth gan gynnwys sesiynau un i un 'Derbyshire'. Mae côd ymarfer ADY y sir yn cael ei weithredu. Mae adnoddau yn cael eu casglu at ddibenion ADY ac mae ystafell wedi ei adnodi at y pwrpas. Mae'r seicolegydd addysg ac aelodau o dîm cefnogi ADY y sir yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Cynhelir arolwg ADY bob mis Hydref. Mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r Uned Iath a Lleferydd a leolir yn YGG Bryn Tawe.

*The school's Additional Learning Needs (ALN) Policy fully complies with the Local Education Authority's Guidelines and the Welsh Assembly's Code of Practice. The school's head teacher along with the Additional Learning Needs co-ordinator review the policy annually. A member of the governing body is appointed to oversee the provision for ALN. The spectrum included within additional needs is very wide, from children with an official statement to exceedingly bright children who deserve extension work to maintain their interest and develop their abilities. As there is a spectrum of additional needs in the school, a range of specialist provision must be made available to meet the needs of the children. We intend for every pupil to*



*profit fully from his/her period at YGG Gellionnen; full provision must therefore be made available for every need and structures put in place to monitor and provide those needs. The children are educated in mixed ability and gender classes in every year at the school. Help is provided for children with Additional Learning Needs within the classroom environment and in specific individual and group situations outside the classroom. Mrs Caroline Williams was the Additional Learning Needs Co-ordinator during the year along with class assistants support pupils inside and outside the class including 'Derbyshire' one to one sessions. The ALN. code of practice is in operation at the school. There are resources for teaching ALN and a room is equipped at the school for Additional Learning Needs The education psychologist and county support staff for ALN visit the school regularly. An Additional Learning Needs survey is held in October each year. The school works with the Speech and Language Unit based at YGG Bryn Tawe.*

### **Amddiffyn Plan / Child Protection**

Mae diogelwch a lles ein disgyblion yn bwysicach nag unrhyw ystyriaeth arall. Mae'r Pennaeth neu aelod o'r tîm arwain ar ddyletswydd bob bore a phrynhawn i sicrhau diogelwch y disgyblion.

Mae staff ar ddyletswydd am 8.40yb gyda'r drysiau a gatieu yn cau am 8.50yb. Rhaid i unrhyw un sy'n cyrraedd yr ysgol ar ôl yr amser hwn fynd i'r dderbynfa i gofrestru. Mae cyfnodau dyletswydd staff yn dilyn patrwm debyg yn ystod y dydd wrth oruchwyllo'r neuadd ar iard yn ystod amseroedd egwyl. Mae aelod dynodedig o staff sydd â chymhwyster Cymorth Cyntaf ar gael ar gyfer pob amser egwyl.

Aelodau dynodedig staff sydd a chyfrifoldeb am amddiffyn plant yw Mr Davies (Pennaeth), Mrs Thomas (Dirprwy Bennaeth), a Mrs Sweeney (Arweinydd Lles). Ers Gorffennaf 2018, Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant o fewn y Sir yw Ms Lisa Collins.

*The safety and well-being of our pupils is more important than any other consideration. The Headteacher or a member of the leadership team is on duty every morning and afternoon to ensure the pupils' safety.*

*Staff are on duty at 8.40am with the doors and gates closing at 8.50am. Anyone who arrives at the school after this time must go to reception to register. Staff duty periods follow a similar pattern during the day when supervising the hall and the yard during break times. A designated member of staff with a First Aid qualification is available for each break time.*

*Designated members of staff with responsibility for child protection are Mr Davies (Head), Mrs Thomas (Deputy Head), and Mrs Sweeney (Welfare Leader). Since July 2018, Ms Lisa Collins is Child Protection and Safeguarding Officer within the County.*

### **Cyfleusterau i ddisgyblion ag anabledd / Provision for pupils with disabilities**

Ein nod yw creu cyfleoedd cyfartal i bob disgybl. Ceir rhai cyfleusterau i'r anabl ar y safle. Mae'r ysgol yn cael ei haddasu yn gyson ar gyfer pobl ag anabledd corfforol. Mae rhai rampiau wedi cael eu codi ar gyfer mynediad i bob adeilad a buarth ac mae yna doiled i'r anabl. Gweithredir ar yr egwyddor o sicrhau fod adnoddau ar gael i ddisgyblion anabl er mwyn eu galluogi i ymroi'n llawn ac i sylweddoli eu potensial llawn o fewn cymuned yr ysgol.

*Our aim is to provide equal opportunities for all pupils. The school has some facilities for the disabled. The school is continuously being adapted for use by disabled children and parents as and when limited resources become available. Ramps are in place for access to all buildings and yards and there is a disabled toilet on site. The governors and teachers are committed to the principle of accepting disabled pupils and to make*

*every facility available and accessible to them so that they can participate fully to realise their own full potential within the school society.*

### **Toiledau / Toilets**

Mae toiledau ymhob adeilad ac maent yn cael eu glanhau yn ddyddiol.

*There are toilets in every building which are cleaned on a daily basis.*

### **Cyngor Ysgol / School Council**

Mae dau aelod o bob dosbarth o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn cael eu dewis drwy etholiad i gynrychioli eu dosbarth ar Gyngor yr Ysgol. Mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â pha elusennau i gefnogi, a sut i godi'r arian yma.

*Pupils from each class from Year 2 to Year 6 are elected to represent their class on the School Council. The school Council make decisions regarding which charitable organisations to support and how to do so.*

### **Ysgolion Iach / Healthy School**

Rydym yn aelod o Ysgolion Iach Abertawe a Mrs Eleri Mackey yw'r cydlynnydd. Hyrwyddir blychau bwyd iach i'r plant sydd ddim yn derbyn prydau bwyd ysgol. Ni chaniateir siocled na chreision fel byrbrydau. Buom yn cydweithio'n agos gyda Mr Roger Dutton, Swyddog beicio Sustrans, i ddarparu cyfleoedd beicio a sgwtera diogel i ddisgyblion yr ysgol gyfan. Mae gennym ddwy ffynnon ddwr lle gall y plant lenwi eu poteli dwr fel bo'r angen. Anogir y plant i yfed dwr yn ystod y dydd.

*We are part of the Swansea Healthy School initiative and Mrs Eleri Mackey is our co-ordinator. Children are encouraged to bring healthy lunchboxes to school if they do not have school lunches. No chocolate or crisps are consumed as snacks during break times. We worked closely with Mr Roger Dutton, Sustrans cycling officer, to provide safe cycling and scootering opportunities for pupils throughout the school. We have two drinking fountains where the pupils can fill their water bottles as needed and they are encouraged to drink water during the day.*

### **Llysgenhadon Chwaraeon / Sports Ambassadors**

Mae'r Llysgenhadon Chwaraeon yn parhau i weithredu o fewn yr ysgol yn hyrwyddo chwaraeon fel arf bwerus ar gyfer iechyd a lles. Cydweithio'n nhw'n wythnosol gydag arweinydd Llythrennedd corfforol y sir i ddarparu sesiynau i grwpiau o blant ar draws yr ysgol i wella medrau disgyblion.

*The Sports Ambassadors continue to operate within the school promoting sport as a powerful tool for health and well-being. They collaborated weekly with the county's Physical Literacy leader to provide sessions for groups of children across the school to improve pupils' skills.*

### **Llysgenhadon iaith / Welsh Language Ambassadors**

Mae nifer o brofiadau ieithyddol wedi deillio trwy wrando ar lais y disgybl ac wrth drafod gyda'r athrawes gyfrifol. Oherwydd eu bod yn mwynhau sioeau byw, trefnwyd bod Mewn Cymeriad yn ymweld â'r ysgol

gyda'r sioe deithiol '10 Stori Hanes Cymru'. Cydweithiodd y llysgenhadon gydag aelodau Menter Iaith Abertawe yn ystod yr ymgyrch i leoli slogan 'Yma o Hyd' mewn llefydd amlwg ar draws yr ysgol. Arweiniodd y Fenter Iaith gemau buarth yn eu cwmni nhw hefyd. Bu ymweliad llwyddiannus i Lyfrgell Genedlaethol Aberystwyth gyda sioe Betty Campbell yn uchafbwynt ar y daith ac o ganlyniad mae wal yn yr ysgol yn sôn am fywyd Betty Campbell.

*A number of linguistic experiences have resulted from listening to the pupils and through discussions with the teacher leading this agenda. As the pupils enjoy a live shows, it was arranged that Mewn Cymeriad visited the school with a 10 Welsh History Stories show. The ambassadors collaborated with members of Menter Iaith Abertawe during its campaign to place the slogan 'Yma o Hyd' in prominent places throughout the school and they also led playground games for the pupils. A successful visit was arranged to the National Library of Wales in Aberystwyth and a show about the life of Betty Campbell was highlight of the trip. As a result there is a wall in the school depicting Betty Campbell's life.*

### **Cysylltiadau â'r Gymuned / *Community Links***

Crëwyd neu fe gadarnhawyd nifer o gysylltiadau gyda'r gymuned yn ystod y flwyddyn wrth i'r plant fynd ar deithiau lleol neu wrth i ymwelwyr ddod i'r ysgol. Bu'r disgyblion hefyd yn cynrychioli'r ysgol mewn nifer o ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol. Mae engreiffiau isod.

*The schools established or strengthened a great deal of contacts in the local community during the year as the children participated in educational visit or visitors came to the school. Our pupils also represented the school at local and national events. Examples are below.*

- 1. Perfformiadau gan y disgyblion yn y gymuned / *Performances by pupils in the community* :**
  - Cystadlaethau yr Urdd – lleol, sirol a chenedlaethol gan gynnwys rygbi, pêl-rwyd, pêl-droed, Cogurdd, yr Eisteddfod ayyb / *Local, County and National Urdd Competitions including rugby, netball, football, Cogurdd (cooking) the Eisteddfod etc*
  - Gwasanaethau a Sioeau Nadolig / *Christmas Concerts and Services*
  - Gweithgareddau amrywiol i gefnogi elusennau / *Various charity and fund raising events*
  - Gwasanaeth Diolchgarwch / *Harvest Service*
  - Picnic a Prome / *Picnic and Proms*
  - Gwasanaethau dan ofal enwadau lleol amrywiol / *Services under the care of various local denominations*
  - Gwasanaeth ffarwelio Blwyddyn 6 / *Year 6 leavers assembly*
  - Agor y llyfr gydag aelodau o Gapel y Nant / *Open the book with members of Capel y Nant*
  - Gemau chwaraeon – ysgolion a thwrnameintiau e.e. pêl fased Gavin Thomas, swyddog 5x60 / *Sports matches – schools and tournaments e.g. basketball Gavin Thomas, 5x60 officer*
  - Hyfforddiant sgiliau criced, tenis, triathlon a phentathlon modern / *Cricket, tennis, triathlon and modern pentathlon skills sessions*
  - Hyfforddiant pêl foli i flwyddyn 6 / *Volleyball coaching year 6*
  - Cwis Llyfrau a Chwis Dim Clem / *Book quiz and 'Dim Clem' Quiz*
  - Treialon pêl-droed Ysgolion Sir Abertawe / *Swansea Schools Football Trials*
  - Treialon Rygbi Cwm Tawe / *Swansea Valley Rugby Trials*
  - Prome offerynnol YGG Bryn Tawe / *YGG Bryn Tawe music proms*

## 2. **Ymweliadau Addysgiadol / Educational Visits :**

Fe ddarparwyd amrywiaeth o ymweliadau addysgiadol ar gyfer disgyblion yr ysgol e.e /  
*A range of varied and interesting educational visits were arranged for the pupils e.g:*

- Gwersi nofio – Bl 2 i 6 / *Year 2 to 6 swimming lessons*
- Cyrsiau Preswyl i Glanllyn, Llain, Ystradgynlais a Hooke Court, Dorset / *Residential Courses to Glanllyn, Llain, Ystradgynlais and Hooke Court, Dorset*
- Sioeau Theatr mewn Addysg / *Theatre in Education productions*
- Sgyrsiau ac ymweliadau gan y Gwasanaethau Brys / *Talks and Visits by the Emergency Services*
- Gweithdai Gwyddoniaeth Oriol / *Oriel Science Workshops*
- Gwersi Mandarin *Lessons*
- Digwyddiad Rasio Greenpower Ceir Trydan Miskin / *Miskin Greenpower Electric Car Racing Event*
- Ymweliadau â Llyfrgell Clydach / *Visits to Clydach Library*
- Diogelwch Beicio gyda Sustrans / *Sustrans Bike Skills*
- Hyfforddiant Diogelwch Heol / *Kerbcraft Road Safety Training*
- PC Cerian Hughes a nyrs yr ysgol / *PC Cerian Hughes and school nurse*
- Dr Aneurin Karadog, Cyn Fardd Plant Cymru / *Childrens Poet Laureate Wales*
- Pontio YG Bryntawe / *YG Bryntawe transition*
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru Sain Ffagan / *National Museum of Wales Sain Ffagan*

## 3. **Cefnogi Elusennau / Supporting Charities:**

Er mwyn gwneud ein disgyblion, staff a rhieni yn ymwybodol o anghenion eraill fe gefnogir nifer o achosion elusennol gan Ysgol Gymraeg Gellionnen ar hyd y flwyddyn ysgol e.e. Plant Mewn Angen, Comic Relief, Harry's Fund.

*In order to increase our pupils awareness of others, less fortunate than themselves, the pupils have supported many charities during the school year e.g. Children in Need, Comic Relief, Harry's Fund.*

## **Chwaraeon / Sport**

Mae'r ysgol yn anelu at fod yn ysgol iach. Rhan bwysig o hyn yw ymarfer corff. Mae blynyddoedd 2 i 6 yn mynychu gwersi nofio. Hyfforddwyr profiadol sy'n rhoi'r hyfforddiant yma mewn canolfannau arbennig. Mae'r plant wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol gan arbenigwyr eraill megis, Swyddog datblygu rygbi, hyfforddwr tenis. Dilynir cynllun ymarfer corff drwy'r ysgol. Yn ogystal â hyn gwahoddir arbenigwyr i mewn i'r ysgol i weithio gyda'r plant. Cymerir rhan mewn cystadlaethau o bob math a cheir gemau yn erbyn ysgolion eraill. Fe gynhelir ystod o glybiau allgyrsiol yn ystod y flwyddyn megis clybiau sgiliau pêl, rygbi, pêl droed, pêl rwyd, hoci, tenis, athletau, criced, rownderi a ffitrwydd.

*We aim to be a healthy school. Sport, therefore, plays an important part in our school. Swimming lessons were taught to years 3 to 6. The children also received coaching from a tennis specialist this year. We follow a PE scheme of work and specialists are invited to school to assist the children in improving skills and standards. The school takes part in a variety of competitions and games are played against other schools. A wide range of extra curricular clubs are offered during the year including ball skills, rugby, football, netball, hockey, tennis, athletics, cricket, rounders and fitness.*

## **Trefniadau ac Ymweliadau Rhieni / Parental Liaison :**

Mae'r ysgol yn darparu noson agored i rieni ymweld â'r ysgol er mwyn trafod gwaith a datblygiad eu plant.

Mae'r disgyblion yn derbyn adroddiad ysgrifenedig manwl yn flynyddol. Os oes angen dod i'r ysgol i drefnu cyfarfod gyda'r athro/athrawes neu'r Pennaeth, mae modd cysylltu â'r ysgol i wneud trefniant cyfleus. Yn dymhorol danfonir llythyr at rieni yn cyfeirio at waith y tymor sydd i ddod.

*Open evenings are arranged every school year enabling the class teacher and parent/guardians to discuss the pupil's work and progress. Pupils receive detailed written reports once a year. If parents wish to discuss anything with the teacher or Headteacher, it is possible to contact the school to arrange a convenient appointment. At the beginning of every term, a letter is sent to all parents summarizing the work and topics that are to be covered-*

### **Cymdeithas Rieni ac Athrawon / *Parent Teachers Association***

Gwerthfawrogwn yn fawr frwdfrydedd ac angerdd aelodau newydd y CRhA sydd yn gweithio'n ddyfal ar ran yr ysgol. Maent yn weithredol o fewn yr ysgol ac yn trefnu gweithgareddau ar gyfer y disgyblion. Maent yn cyfarfod yn gyson fel cymdeithas ac yn codi arian drwy weithgareddau ac ymweld â busnesau lleol am gyfraniadau sydd yn elwa'r holl ddisgyblion yn uniongyrchol.

*We greatly appreciate the enthusiasm and passion of the new PTA members who work diligently on behalf of the school. They are active within the school and organise a range of activities for the pupils. They meet regularly as a society and raise money through activities and visiting local businesses for contributions that benefit all the pupils directly.*

### **Presenoldeb / *Attendance***

**Roedd canran presenoldeb yr Ysgol fel a ganlyn / *The School's attendance data is as follows:***

<b><u>Blwyddyn</u></b>	2019/20	2020/21	<b>2021/22</b>
Presenoldeb / Attendance	91.9%	93.1%	<b>88.4%</b>

Mae absenoldeb ysgol gyfan wedi gwella yn raddol yn ystod y dair blynedd ddiwethaf, er i'r canran ddisgyn ychydig eleni. Er mwyn cefnogi presenoldeb reolaidd, bydd yr ysgol yn penderfynu ar ganiatâd am absenoldeb am wyliau teuluol ar sail Meini Prawf a gytunwyd gan y Corff Llywodraethol.

*Overall attendance has improved steadily during the last three years and demonstrates an upward trend, although a small dip was experienced this year. In order to support regular school attendance, the school will decide on authorisation of a child's absence from school for a family holiday based on the criteria agreed by the Governing Body.*

**Y targedau presenoldeb ar gyfer 2022-23 / *The attendance targets for 2022-23:***

Targed / Target 20/21	Targed / Target 21/22	Targed / Target 22/23
N.A.	92%	92%
Covid.		

**Atodiadau / *Attachments:***

1. Arolwg o'r cyllid 2021-22 *Financial Statement*



Dilynwch ni / Follow us -

[@YGGellionnen](https://twitter.com/YGGellionnen)

*am wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o'r ysgol /*

*for the latest information and news from school.*

Atodiad 1:

**CYLLID YGG GELLIONNEN**

**DATGANIAD DIWEDD BLWYDDYN 2021-22**

	<b>Gwariant Dirprwyedig</b>	<b>Gwariant Annirprwyedig</b>	<b>Cyfanswm Gwariant Net</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Cyflogau Athrawon	651,161	3,018	654,179
Cyflogau	240,354	20,916	261,270
Costau Cyflogaeth Arall	1,275	-2	1,272
Adeilad	22,880		22,880
Trafnidiaeth	456	40,054	40,509
Cyflenwadau a Gwasanaethau	173,465		173,465
Gwasanaethau'r Sir	6,377	350	6,727
<b>Gwariant Gros</b>	<b>1,095,967</b>	<b>64,335</b>	<b>1,160,302</b>
<i>Incwm Grant</i>	-245,229		-245,229
<i>Incwm Arall</i>	-28,423		-28,423
<b>Incwm Gros</b>	<b>-273,652</b>	<b>0</b>	<b>-273,652</b>
<b>Gwariant Net</b>	<b>822,315</b>	<b>64,335</b>	<b>886,650</b>

<b>CRONFEYDD WRTH GEFN:</b>	<b>£</b>
DYRANIAD FFORMIWLA TERFYNOL:	827,490
CYFANSWM GWARIANT NET:	822,315
<b>TROSGLWYDDO I / (O) WRTH GEFN:</b>	<b>5,175</b>
BALANS AGORIADOL AR GRONFEYDD WRTH GEFN 01/04/21	134,248
<b>BALANS CAU AR GRONFEYDD WRTH GEFN: 31/03/22</b>	<b>139,423</b>

Appendix 1

**YGG GELLIONNEN BUDGET**

**END OF YEAR STATEMENT 2021-22**

	<b>Delegated Expenditure</b>	<b>Non-Delegated Expenditure</b>	<b>Total Net Expenditure</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Teachers Salaries	651,161	3,018	654,179
Salaries	240,354	20,916	261,270
Other Employee Costs	1,275	-2	1,272
Premises	22,880		22,880
Transport	456	40,054	40,509
Supplies & Services	173,465		173,465
Recharges	6,377	350	6,727
<b>Gross Expenditure</b>	<b>1,095,967</b>	<b>64,335</b>	<b>1,160,302</b>
Grant Income	-245,229		-245,229
Other Income	-28,423		-28,423
<b>Gross Income</b>	<b>-273,652</b>	<b>0</b>	<b>-273,652</b>
<b>Net Expenditure</b>	<b>822,315</b>	<b>64,335</b>	<b>886,650</b>

<b>RESERVES:</b>	<b>£</b>
FINAL FORMULA ALLOCATION:	827,490
TOTAL NET EXPENDITURE:	822,315
<b>TRANSFER TO / (FROM) RESERVES:</b>	<b>5,175</b>
OPENING BALANCE ON RESERVES 01/04/21	134,248
<b>CLOSING BALANCE ON RESERVES: 31/03/22</b>	<b>139,423</b>